Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** | |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** | |
| **Dyddiad:** | **31 Awst 2016** | |
| **Amser:** | **10:00 – 11:05** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (CC)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Sharon Richards, Rheolwr Perfformiad, SCHTh (SR)<br>Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 17/08/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2033** | **Anfon llythyr at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda sy'n nodi pryderon o ran trwyddedu arfau saethu** | **Ar waith** |
| **PB 2034** | **Darparu diweddariad ar yr adolygiad SGC yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 28 Medi** | **Ar waith** |
| **PB 2035** | **Cyhoeddi datganiad i'r wasg yn sôn am aelodaeth y CHTh o'r Bwrdd Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol** | **Ar waith** |
| **PB 2036** | **Achos busnes llety'r Pencadlys terfynol i'w drafod yn y Bwrdd Plismona nesaf** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2037** | **CM i gynrychioli SCHTh ar y Bwrdd Iaith Gymraeg** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2038** | **Y DBG i hysbysu CHTh am nifer y cyfeiriadau y mae HDP yn gwneud i'r Tîm Gorfodi Atafaelu Asedau yn y Tîm Adfer Asedau Rhanbarthol** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2039** | **Y CHTh i recordio podlediad i'w ddefnyddio yn y digwyddiad ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ar 7 Medi** | **Ar waith** |
| **PB 2040** | **SCHTh i rannu amserlen ar gyfer datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu â'r Heddlu** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2041** | **Y DBG i roi diweddariad ar anghenion plismona Sir Benfro yn y cyfarfod nesaf** | **Ar waith –d/y i 16/09/16** |
| **PB 2042** | **Y DBG i gadarnhau canlyniad cynnig Materion Terfysgaeth a Materion Cysylltiedig Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu mewn perthynas â theledu cylch cyfyng yn y porthladdoedd** | **Cwblhawyd** |

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 31/08/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 05** | **Cytunodd y CHTh mewn egwyddor i'r argymhelliad y dylai'r prosiect adnewyddu llety myfyrwyr fynd rhagddo, ond y dylai eistedd o fewn y strategaeth ystadau ehangach mewn perthynas â safle'r Pencadlys. O ran llywodraethu, dylid rheoli gweithredu'r prosiect llety myfyrwyr drwy'r Bwrdd Strategaeth Ystadau** | **CA** |
| **PB T2 06** | **Mae'r CHTh yn cymeradwyo gwobrwyo cytundeb y gwaith TCC a dalfeydd i gwmni Kier Construction ar gost o £336,000** | **CA** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Awst a materion yn codi**

PB 2033 – Roedd y PSA wedi trafod y mater â'r Pennaeth Trwyddedu Arfau Saethu er mwyn deall y mater yn llawn cyn pennu pa un ai a oes dal angen anfon llythyr.

PB 2035 – Roedd y CHTh wedi cwrdd â'r Uwch Reolwr Cyfathrebu Corfforaethol er mwyn trafod y datganiad i'r cyfryngau, a fyddai'n cael ei ryddhau yn dilyn cyfarfod Bwrdd Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol cyntaf y CHTh. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r gwasanaeth y Mae'r Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol yn cyflenwi.

PB 2038 – Dywedodd SR bod y data a dderbyniwyd yn awgrymu bod HDP yn gwneud nifer fawr o gyfeiriadau i'r Gorfodi Atafaelu Asedau o fewn y Tîm Adfer Asedau Rhanbarthol, ac roedd y CHTh yn fodlon â hynny. Dywedodd y CHTh bod cais Rhyddid Gwybodaeth hefyd wedi'i dderbyn mewn perthynas â'r mater. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r defnydd o Elw Troseddau, a chytunwyd y byddai Rheolwr Ariannu Allanol SCHTh a'r Ditectif Arolygydd Anthony yn datblygu achos busnes ar gyfer ariannu yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu: Y Rheolwr Ariannu Allanol SCHTh a'r Ditectif Arolygydd Anthony yn datblygu achos busnes ar gyfer defnyddio arian Deddf Elw Troseddau yn y dyfodol**

PB 2039 – Mynegodd y CHTh ei siom nad oedd yn medru bod yn bresennol, ond byddai'n recordio podlediad i'w ddefnyddio yn y digwyddiad.

PB 2042 – Dywedodd y CHTh bod y canlyniad wedi'i dderbyn, ond dywedodd SR ei fod yn disgwyl cymeradwyaeth gweinidogol. Disgwylir y gymeradwyaeth erbyn diwedd yr wythnos.

**Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Rhoddodd y PG drosolwg i'r CHTh o achosion chwe swyddog ac aelod staff sydd wedi'u hatal o'r gwaith ar hyn o bryd.

Darparodd y PG drosolwg byr o'r digwyddiadau gweithredol allweddol, gan gynnwys rêf wedi'i drefnu a gwrthdrawiad beic modur angheuol. Roedd y PG yn ystyried bod nifer y digwyddiadau beic modur angheuol yn debyg i nifer y llynedd. Nododd y PG ymateb ardderchog swyddogion a aeth i leoliad lladrad arfog yn Llanelli.

**Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Roedd y CHTh wedi mynychu cyfarfod cyhoeddus gyda Chyngor Tref y Trallwng er mwyn trafod pryderon cymunedol. Cytunwyd y byddai'r CHTh yn cyflwyno'r pryderon i'r arweinydd rhanbarthol er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o'r materion lleol. Anogodd y PG y deialog uniongyrchol hwn er mwyn codi pryderon cymunedol yn effeithiol ble bynnag y mae'n bosibl.

Roedd ymgeiswyr ar gyfer y swydd PG wedi mynychu digwyddiad ymgyfarwyddo'r wythnos diwethaf. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1 Medi.

Roedd ymgynghori â'r cyhoedd o ran y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd yn parhau. Byddai'r CHTh yn cynnal brecwastau busnes ledled HDP yn ystod Wythnos Busnesau Bach yr wythnos nesaf, ond disgwylir na fyddai llawer yn bresennol. Dywedodd SR fod hyn yn siomedig gan fod 600 o ymatebwyr wedi cyflwyno eu manylion cyswllt drwy'r arolwg troseddau busnes a gynhaliwyd gan SCHTh ym mis Ionawr.

Roedd y CHTh wedi cwrdd â Maer y Drenewydd a Chlerc y Cyngor Tref, a oedd heb adrodd am faterion sydd o bryder ar hyn o bryd.

Roedd y broses o ailstrwythuro SCHTh wedi'i chwblhau, gyda swyddi newydd yn cael eu hysbysebu. Dywedodd y CHTh bod adroddiad ar y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael ei gynhyrchu. Ar hyn o bryd, roedd ôl-groniad o tua 100 o achosion yr oedd y tîm yn ymdrin â nhw. Roedd y CHTh hefyd wedi cwrdd â rhai achwynwyr er mwyn esbonio cylch gwaith CHTh a thrafod sut allai helpu, os o gwbl.

Dywedodd y CHTh y byddai mis Medi'n fis prysur gydag amrediad o gyfarfodydd cenedlaethol yn ogystal â'r broses recriwtio Prif Gwnstabl.

**Diweddariadau**

***Darpariaeth llety ar gyfer hyfforddiant swyddogion heddlu a SCCH yn y Pencadlys***

Nododd y CHTh yr adroddiad, gad ddweud bod y buddsoddiad sydd angen wedi codi i £494,000, gyda statws adennill costau yn ystod blwyddyn 5 a 6. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y CHTh mewn egwyddor i'r buddsoddiad, ond dywedodd bod angen i'r prosiect ymddangos yn y strategaeth ystadau ehangach ar gyfer y pencadlys. Tynnodd y CHTh sylw at yr oblygiadau diogelwch sy'n effeithio ar y Pencadlys cyfan.

**Penderfyniad: Cytunodd y CHTh mewn egwyddor i'r argymhelliad y dylai'r prosiect adnewyddu llety myfyrwyr fynd rhagddo, ond y dylai eistedd o fewn y strategaeth ystadau ehangach mewn perthynas â safle'r Pencadlys. O ran llywodraethu, dylid rheoli gweithredu'r prosiect llety myfyrwyr drwy'r Bwrdd Strategaeth Ystadau**

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Adolygiad o Deledu Cylch Cyfyng***

Gofynnodd y CHTh am ddiweddariad ynghylch cynnydd yr adolygiad. Dywedodd y PG bod yr adolygiad wedi' gynnal cyn yr etholiadau, ond nid oedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno i gyfarfodydd Bwrdd Plismona yn ystod y cyfnod o enciliad. Dywedodd y PG y byddai'r adroddiad yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod yr argymhellion dal yn berthnasol cyn ei ail gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ar gyfer ystyriaeth.

**Cam Gweithredu: Cyflwyno adroddiad ynghylch adolygiad o deledu cylch cyfyng i gyfarfod y Bwrdd Plismona ddiwedd mis Medi**

***Adolygiad o reoli galw***

Awgrymodd y CHTh bod uwch-gynhadledd cynllunio ariannol a galw SCHTh a Grŵp Prif Swyddogion ar y cyd yn cael ei chynnal ym mis Ionawr 2017. Gofynnodd y CHTh am i'r dogfennau rheoli galw gael eu diweddaru mewn paratoad ar gyfer yr uwch-gynhadledd. Yn ogystal, ceisiodd y CHTh sicrwydd bod y cynlluniau gweithlu'n cefnogi tyfiant cymunedau lleol. Dywedodd y PG bod y lefel sefydliad wedi'i osod yn ôl yr hyn yr oedd yr heddlu'n medru fforddio, ac y gallai'r fformiwla ariannu newydd a'r Adolygiad o Wariant Cynhwysfawr effeithio ar y sefydliad. Sicrhaodd y PG y byddai'r galw a'r cyllid sydd ar gael yn cael eu defnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus o ran y sefydliad yn y dyfodol. Cytunwyd bod yr uwch-gynhadledd yn bwysig o ran cefnogi'r CHTh i osod y lefel praesept i'w hystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Chwefror.

**Cam Gweithredu: Trefnu uwch-gynhadledd cynllunio ariannol a galw SCHTh a'r Grŵp Prif Swyddogion ar gyfer Ionawr 2017**

***Cytundeb gwaith teledu cylch cyfyng a dalfeydd***

Yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, roedd yr adroddiad ar gyfer gwobrwyo cytundeb wedi'i gyflwyno i'r cyfarfod Bwrdd Plismona ar gyfer cymeradwyaeth. Mae angen amrediad o waith gwella o ran dalfeydd er mwyn i ddalfeydd HDP fodloni safonau diweddaraf y Swyddfa Gartref. Y cyfanswm o ran cost fydd £336,000. Diolchodd y CA i'r Cyfarwyddwr Ystadau a'r Prif Swyddog Ariannol am eu cymorth o ran datblygu'r adroddiad mewn modd amserol. Cafwyd trafodaeth ynghylch ymchwiliadau Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu sy'n parhau mewn perthynas â digwyddiadau yn y ddalfa.

**Penderfyniad: Mae'r CHTh yn cymeradwyo gwobrwyo cytundeb y gwaith TCC a dalfeydd i gwmni Kier Construction ar gost o £336,000**

Gofynnodd SR am i SCHTh dderbyn digon o rybudd pan mae angen sêl CHTh ar gytundebau, er mwyn sicrhau bod aelodau staff perthnasol ar gael i roi'r sêl yn sownd.

***Gohebiaeth a dderbyniwyd***

Nododd y CHTh bod gohebiaeth wedi'i dderbyn mewn perthynas â chais am gymorth ariannol ar gyfer rhaglen dargyfeirio a chynhwysiad ieuenctid Cymru gyfan. Ceisiodd y CHTh eglurhad, gan fod SCHTh eisoes wedi cyfrannu at raglen HDP. Cytunodd y PG i adolygu'r cynnig a chyflwyno argymhelliad i'r CHTh.

**Cam Gweithredu: Y PG i gyflwyno argymhelliad mewn perthynas ag ariannu'r rhaglen dargyfeirio a chynhwysiad ieuenctid Cymru gyfan**

***Profi anadl ar ochr y ffordd***

Holodd y CHTh ynghylch argaeledd pecynnau profi anadl ar ochr y ffordd yn dilyn pryder gan aelod o'r cyhoedd nad oedd digon o becynnau ar gael. Cytunodd y PG i gynnal adolygiad a rhoi adroddiad i'r CHTh.

**Cam Gweithredu: Y PG i adolygu nifer y pecynnau profi anadl ar ochr y ffordd a rhoi adroddiad i'r CHTh**

***Gwasanaeth symud y crwner yng Ngheredigion***

Roedd y CHTh wedi derbyn gohebiaeth yn mynegi pryderon dros wasanaeth symud y crwner yng Ngheredigion. Roedd y CHTh wedi derbyn ymateb cynhwysfawr mewn perthynas â'r mater gan yr Arolygydd Roseanne Lloyd, a byddai'n ymateb i'r pryder cychwynnol yn unol â hynny. Cadarnhaodd y PG mai cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol oedd y mater, ac y byddai HDP yn cynrychioli'r pryderon i'r Crwner os ystyrir fod hynny'n briodol.

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 31/08/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2043** | **Y Rheolwr Ariannu Allanol SCHTh a'r Ditectif Arolygydd Anthony yn datblygu achos busnes ar gyfer defnyddio arian Deddf Elw Troseddau yn y dyfodol** | **SCHTh** |
| **PB 2044** | **Cyflwyno adroddiad ynghylch adolygiad o deledu cylch cyfyng i gyfarfod y Bwrdd Plismona ddiwedd mis Medi** | **PG** |
| **PB 2045** | **Trefnu uwch-gynhadledd cynllunio ariannol a galw SCHTh a'r Grŵp Prif Swyddogion ar gyfer Ionawr 2017** | **CM** |
| **PB 2046** | **Y PG i gyflwyno argymhelliad mewn perthynas ag ariannu'r rhaglen dargyfeirio a chynhwysiad ieuenctid Cymru gyfan** | **PG** |
| **PB 2047** | **Y PG i adolygu nifer y pecynnau profi anadl ar ochr y ffordd a rhoi adroddiad i'r CHTh** | **PG** |